Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

David Rees AS

Y Dirprwy Lywydd

15 Gorffennaf 2021

Annwyl Ddirprwy Lywydd

**Trosolwg ariannol ar cyrff a ariennir yn uniongyrchol drwy Gronfa Gyfunol Cymru**

Cyfarfu'r Pwyllgor Cyllid ar 8 Gorffennaf 2021 a thrafododd y Datganiad o Egwyddorion cyfredol sy'n gymwys i gyrff a ariennir yn uniongyrchol gan Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Egwyddorion hyn yn ganllaw i gyrff a ariennir yn uniongyrchol[1] eu hystyried wrth baratoi eu cynigion cyllideb blynyddol. Cyflwynwyd yr Egwyddorion ym mis Mai 2019 ac fe'u hadolygwyd yn eu blwyddyn weithredu. Mae adroddiad gwaddol y Pwyllgor Cyllid blaenorol yn nodi:

> "Cydnabu'r Pwyllgor fod dogfennaeth Cyllideb pob corff a ariennir yn uniongyrchol yn dangos yr Egwyddorion i ryw raddau a thrafodwyd hyn yn fanylach mewn sesiynau craffu. Cytunodd y Pwyllgor na fyddai newidiadau yn cael eu gwneud i'r Egwyddorion ar hyn o bryd."

Felly, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddoeth i'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol barhau i ddilyn yr Egwyddorion hyn wrth baratoi eu dogfennaeth gyllidebol, gyda'r bwriad o adolygu'r Egwyddorion yn dilyn cylch cyllideb 2022-23.

[1] Comisiwn y Senedd, Swyddfa Archwilio Cymru; Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Gan y bydd gan Bwyllgor y Llywydd drosolwg ariannol o’r Comisiwn Etholiadol, rwy’n gobeithio y byddwch yn cytuno y dylai’r Egwyddorion barhau i fod yn gymwys i'r Comisiwn Etholiadol i sicrhau dull gweithredu cyson. Edrychaf ymlaen at ddod i Bwyllgor y Llywydd maes o law.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.